

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)

Y BIL CAM-DRIN DOMESTIG

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil Cam-drin Domestig 2019-21 (y “Bil”) yn Nhŷr Cyffredin ar 3 Mawrth 2020. Gellir gweld y fersiwn ddiweddaraf o’r Bil, fel y’i diwygiwyd yng Ngham Pwyllgor Tŷr Arglwyddi, yn: <https://services.parliament.uk/bills/2019-21/domesticabuse.html>.

Amcan(ion) Polisi

3. Nodwyd mai amcanion polisi Llywodraeth y DU yw codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o gam-drin domestig a’i effaith ar ddioddefwyr, gwella effeithiolrwydd y system gyfiawnder ymhellach o ran diogelu dioddefwyr camdriniaeth domestig a dod â throeddwy gerbron y llysoedd, a chryfhau’r cymorth i ddioddefwyr camdriniaeth a’u plant a ddarperir gan asiantaethau statudol eraill.

Crynodeb o’r Bil

4. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
5. Mae’r Bil yn gwneud y darpariaethau a ganlyn:
 - Mae **Rhan 1** yn darparu ar gyfer diffiniad statudol o gam-drin domestig sy’n sail i ddarpariaethau eraill yn y Bil.
 - Mae **Rhan 2** yn creu swydd Comisiynydd Cam-drin Domestig, yn nodi swyddogaethau a phwerau’r Comisiynydd ac yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig i gydweithredu â’r Comisiynydd.
 - Mae **Rhan 3** yn darparu ar gyfer cyfundrefn gorchmynion ataliol sifil newydd – Hysbysiad Diogelu rhag Cam-drin Domestig (“DAPN”) a Gorchmyn Diogelu rhag Cam-drin Domestig (“DAPO”).
 - Mae **Rhan 4** yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol haen un yn Lloegr mewn cysylltiad â darparu cymorth i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig a’u plant mewn llochesau a llety diogel arall.
 - Mae **Rhan 5** yn gwneud dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn gymwys yn awtomatig ar gyfer mesurau arbennig yn y llysoedd troseddol; ac yn gwahardd y rhai sy’n cyflawni rhai troseddau rhag croesholi eu dioddefwyr yn bersonol yn y llysoedd teulu yng Nghymru a Lloegr (ac i’r gwrthwyneb) ac yn rhoi i lysoedd teulu y pŵer, o dan amgylchiadau penodol, i benodi

cynrychiolydd cyfreithiol i gynnal y croesholi ar ran y person gwaharddedig.

- Mae **Rhan 6** yn estyn awdurdodaeth alltiriogaethol y llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i droseddau treisgar a rhywiol ychwanegol.
- Mae **Rhan 7** yn gwneud darpariaeth amrywiol a chyffredinol. Yn benodol, mae'r Rhan hon yn galluogi cynnal profion polygraaff ar droseddwyr cam-drin domestig fel un o amodau eu trwydded ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa; yn rhoi'r canllawiau sy'n ategu'r Cynllun Datgelu Trais Domestig ar sail statudol; yn sicrhau y rhoddir tenantiaeth oes ddiogel i bersonau sydd â thenantiaethau oes ddiogel neu sicr pan fo awdurdod lleol yn rhoi'r denantiaeth newydd am resymau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig; ac yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi canllawiau statudol.

Y sefyllfa ddiweddaraf ers cyhoeddi'r ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

6. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 3 Awst 2020, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU ar 3 Mawrth 2020. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar 20 Ionawr 2021.
7. Roedd y ddau femorandwm yn cadarnhau ein bod yn cefnogi'r Bil fel y'i cyflwynwyd ac fel y'i diwygiwyd wedi hynny.
8. Nodais ym Memorandwm Rhif 2 ein bod wedi sicrhau gwelliant i gymal 73 fel bod pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i roi canllawiau wedi'i gyfyngu'n barchus i faterion a gadwyd yn ôl gan y DU. Bydd y gwelliant hwn yn atal yr Ysgrifennydd Gwladol rhag rhoi canllawiau sy'n ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru. Nid oedd Memorandwm Rhif 2, felly, yn cynnwys cymal 73, gan nad oes angen cydsyniad y Senedd bellach yn unol â'r Rheolau Sefydlog.
9. Ar 1 Mawrth 2021, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau pellach i'r Bil, ac mae'r manylion isod. Rwy'n cefnogi'r gwelliannau hyn.

Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

10. Ymestyn y drosedd o reoli neu orfodi mewn perthynas agos neu gyfarwydd. Byddai'r gwelliant hwn yn dileu'r gofyniad bod y partion yn cydfyw mewn perthynas â'r drosedd o reoli neu orfodi (yn adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015) fel y gall fod yn berthnasol i gyn-bartneriaid ac aelodau o'r teulu nad ydynt yn byw gyda'i gilydd. Bydd y gwelliant i adran 76 o Ddeddf 2015 yn nodi'r un diffiniad o 'personally connected' ag yng nghymal 2 y Bil i sicrhau mwy o gysondeb ar draws deddfwriaeth sy'n diffinio 'personally connected' at ddibenion cam-drin domestig.

11. Tagu heb ladd. Mae'r gwelliant hwn yn creu trosedd newydd, sef tagu neu gyflawni unrhyw weithred arall yn fwriadol, sy'n effeithio ar allu person i anadlu, ac sy'n gyfystyr â churo person arall ac yn achosi niwed difrifol.
12. Atodlen 2 – Awdurdodaeth alltiriogaethol. Mae hyn eisoes wedi'i gynnwys yn y Memorandwm. Mae Llywodraeth y DU yn gwneud gwelliannau pellach a fydd yn ei gwneud yn drosedd cyflawni trosedd rywiol mewn gwlad lle na chydabyddir y drosedd fel trosedd. Mae'r gwelliannau hyn yn berthnasol i faterion a gadwyd yn ôl gan y DU (yn unig) ac nid ydynt o fewn cymhwysedd Senedd Cymru, ac mae'r Memorandwm hwn yn nodi hyn er gwybodaeth gan fod Atodlen 2 eisoes wedi'i chynnwys yn yr ail Femorandwm diwygiedig.
13. Adolygiadau o Laddiadau Domestig. Byddai'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol anfon copïau terfynol o bob adroddiad, yn amlinellu casgliadau'r Adolygiad o'r Lladdiad Domestig, at Gomisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr at ddibenion arfer da. Yng Nghymru, caiff yr adolygiadau eu cwblhau gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Rydym wedi bod yn cydgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau, at ddibenion y gwelliant hwn (yn unol â gwelliant blaenorol gan Lywodraeth y DU sydd gennym eisoes), fod pŵer y Comisiynydd i roi cyfarwyddiadau i awdurdodau sy'n berthnasol i faterion o fewn adolygiad o laddiad domestig yn gyfyngedig i gyrff a gadwyd yn ôl gan y DU (megis yr heddlu neu'r gwasanaethau prawf).
14. Tystiolaeth o gam-drin domestig at ddibenion cymorth cyfreithiol: cyfyngiad ar ffioedd. Bydd y gwelliant hwn yn sicrhau, pan fo gweithiwr gofal iechyd proffesiynol (meddyg teulu fel arfer) naill ai'n darparu gwasanaethau yn gyfan gwbl neu'n bennaf o dan gontract gwasanaethau meddygol neu wedi archwilio'r person sy'n gwneud y cais am dystiolaeth, fel rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol, na chaiff y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol godi ffi ar y person hwnnw am ddarparu llythyr neu adroddiad at ddibenion cais am wasanaethau cyfreithiol sifil fel y'u diffinnir yn adran 8(3) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 neu dystiolaeth arall o gam-drin domestig sy'n ofynnol gan Reoliadau eraill. Bydd y gwelliant yn eithrio'r ymarferwyr hynny sy'n gweithredu gwasanaethau preifat yn unig.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd

15. Rydym yn croesawu gwelliannau Llywodraeth y DU. O ran y gwelliant ynghylch ymestyn y drosedd o reoli neu orfodi mewn perthynas agos neu deuluol i fod yn berthnasol i gyn-bartneriaid ac aelodau o'r teulu nad ydynt yn byw gyda'i gilydd, credwn fod hon yn ddarpariaeth bwysig iawn. Nid yw cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn dod i ben pan nad yw'r troseddwr bellach yn byw ar yr un aelwyd â'r dioddefwr.
16. Rwy'n teimlo'n gryf o blaid creu trosedd newydd mewn perthynas â thagu heb ladd. Bydd hyn yn ceisio mynd i'r afael â phryderon y gall troseddwr

osgoi cosb am nad yw tagu a mygu bob amser yn gadael unrhyw anaf gweladwy, gan ei gwneud yn anodd erlyn o dan y cyfreithiau presennol.

17. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn oherwydd eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nid yw dibenion y cymalau hyn i ddiogelu a gwarchod y rhai sydd mewn perygl o drais domestig a sicrhau yr ymdrinnir ag ymddygiad o'r fath yn briodol yn faterion a gadwyd yn ôl gan Lywodraeth y DU. Nid yw'r cyfyngiad ym mharagraff 4 – 'Criminal Law' – Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn berthnasol.
18. Rydym yn cefnogi'r ddau welliant i Gymru felly.
19. Mae'r gwelliant arfaethedig ynghylch ffioedd meddygol yn gwneud darpariaeth ynghylch cael gafael ar ofal iechyd, gan atal ymarferydd meddygol yn benodol rhag codi tâl am adroddiad meddygol at ddibenion gwneud cais am gymorth cyfreithiol. Mae materion sy'n ymwneud â GIG Cymru wedi'u datganoli i raddau helaeth, ac mae awdurdodau iechyd wedi'u rhestru'n benodol fel awdurdodau Cymreig datganoledig o dan atodlen 9A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Am y rhesymau hyn, byddem yn cynghori bod y gwelliant yn dod o fewn y cymhwysedd deddfwriaethol, ac y dylid felly gael cydsyniad y Senedd.
20. Nid wyf o'r farn y dylai dioddefwyr trais domestig a throseddau eraill gael eu cosbi'n ariannol am geisio adroddiad neu lythyr gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Ni fyddem am weld dinasyddion Cymru o dan anfantais o gymharu â phobl sy'n byw yn Lloegr. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch pa mor gyflym y gellid gweithredu darpariaethau cyfatebol yng Nghymru drwy ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth, penderfynwyd cynnwys hyn yn y Bil i sicrhau triniaeth gyfartal i gleifion yng Nghymru. Mae'r cymal hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau er mwyn addasu cwmpas y darpariaethau hyn (mewn perthynas â Chymru) i'r dyfodol, yn amodol ar gytundeb y Senedd. Mae pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i roi canllawiau mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon yn gyson â'r hyn a nodwyd ym mharagraff 8 uchod, ac felly ni fydd yn berthnasol i Gymru.
21. Rydym yn cefnogi'r gwelliant hwn i Gymru felly.
22. Bydd y gwelliant ynghylch Adolygiadau o Laddiadau Domestig yn sicrhau bod copïau o'r adolygiadau terfynol yn cael eu rhoi i Gomisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr i alluogi'r Comisiynydd i sicrhau arfer da, drwy helpu cyrff a gadwyd yn ôl gan y DU, fel yr heddlu a'r gwasanaethau prawf, i weithredu ar sail gwersi a ddysgwyd yn sgil yr adolygiadau, drwy roi cyfarwyddiadau i gyrff a gadwyd yn ôl. Mae'n hanfodol bod cyrff a gadwyd yn ôl sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael gwybodaeth a chyngor am arfer da a fydd yn eu galluogi i ddarparu'r gwasanaethau gorau i bobl Cymru, ac felly rwy'n cefnogi'r gwelliant hwn.

23. Mae'r gwelliant ynghylch Adolygiadau o Laddiadau Domestig yn galw am gydsyniad y Senedd gan ei fod yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig ac yn rhoi swyddogaethau a gadwyd yn ôl gan y DU i awdurdodau datganoledig Cymru.

Goblygiadau ariannol

24. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na Senedd Cymru yn deillio o'r pwerau o dan y Bil, efallai y bydd goblygiadau ariannol i Gymru yn y dyfodol o ran yr effaith gyffredinol pe bai dull gwahanol yn cael ei fabwysiadu. Byddai angen cynnal dadansoddiad manwl pellach mewn achos felly.

Casgliad

25. Yn ein barn ni, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod y Bil yn ymdrin â materion datganoledig a rhai nad ydynt wedi eu datganoli. O ran cydlyniad, rydym yn ystyried mai deddfu drwy Fil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur o wneud y newidiadau deddfwriaethol hyn a fydd yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig yng Nghymru. Nid oes lle yn Rhaglen Ddeddfwriaethol bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil sy'n gwneud darpariaeth i Gymru ar y materion hyn, ac nid oes unrhyw Fil yn y rhaglen y gellid cynnwys darpariaethau o'r fath ynddi.

Jane Hutt, AS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Mawrth 2021